Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb Ser Prion**

**Ysgol Pant Pastynog**
**Prion**
**Dinbych**
**LL16 4SR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**22 Hydref 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Clwb Ser Prion yn glwb ar ôl ysgol a gofrestrwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ofalu am uchafswm o 20 o blant. Y person cofrestredig yw Bethan Lindquist. Y person â chyfrifoldeb yw Eleanor Jones. Gall plant rhwng 4 ac 11 oed fynychu'r clwb. Cynhelir y clwb mewn caban annibynnol yng nghefn Ysgol Pant Pastynog ym mhentref Prion, ger Dinbych. Mae toiledau ac ardaloedd storio ar gyfer cyfarpar ac eiddo'r plant. Mae gan y plant ardal awyr agored, iard ysgol, ar gyfer gweithgareddau awyr agored.
Mae'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Cylch Meithrin a Cylch Ti a Fi hefyd yn darparu gwasanaethau yn yr un ystafell yn ystod oriau ysgol.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**Asesiad cyffredinol**
Mae'r plant sy'n mynychu'r clwb yn hapus ac yn fodlon ac yn mwynhau'r amser a dreulir gyda'r staff a'u cyfoedion a'r gweithgareddau a ddarperir. Mae'r staff yn ymateb i ofynion y plant ac mae'r gydberthynas rhyngddynt yn rhwydd ac yn hapus. Mae'r staff yn gymwysedig ac yn brofiadol iawn ac maent yn adnabod y plant yn dda am eu bod i gyd wedi'u cyflogi yn yr ysgol. Maent yn llawn cymhelliant ac yn ymdrechu i wneud gwahaniaeth ym mywydau'r plant. Mae'r gofal a ddarperir yn gynnes ac yn gariadus, sy'n creu amgylchedd perffaith i ymlacio ynddo ar ôl diwrnod yn yr ysgol.

**Gwelliannau**
Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r arweinwyr wedi sicrhau bod dau eirda ar gyfer pob aelod o staff yn ffeiliau'r staff, ond nid yw'r hanes cyflogaeth wedi'i gwblhau o hyd ar gyfer pob aelod o staff.

**Gofynion ac argymhellion**
Rydym wedi gwneud argymhellion mewn perthynas â gwella rhai agweddau ar yr amgylchedd; arfarnu a goruchwylio staff a sicrhau yr eir i'r afael a meysydd gwella yn hunanasesiad y gwasanaeth.

## 1. Llesiant

**Crynodeb** Mae'r plant yn hapus, yn hyderus ac yn fodlon ac yn mwynhau eu hamser yn y clwb. Maent yn teimlo'n gyfforddus yn eu hamgylchedd ac mae hyn yn hyrwyddo eu hunan-barch a'u datblygiad cymdeithasol. Maent yn mwynhau cydberthynas hapus a gofalgar gyda'r staff a rhoddir sylw i anghenion unigol. Mae'r plant yn cael budd o fynychu'r clwb ac maent yn cael gofal cynnes a pharchus.

**Ein canfyddiadau**

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn cael llawer o sylw a rhoddir llawer o gyfleoedd iddynt fynegi'r hyn yr hoffent ei wneud ac mae'r staff yn gwrando arnynt.

Mae'r plant yn cael budd o amrywiaeth eang o weithgareddau i ddewis ohonynt a dewis helaeth o adnoddau i gwblhau'r gweithgareddau hyn. Gwelwyd y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyn gynted ag yr oeddent yn cyrraedd y clwb. Gwelsom blant yn lliwio, yn chwarae gyda chlai a gemau teganau. Dechreuodd grŵp o dri o blant ganu mewn ffordd fyrfyfyr wrth iddynt gymryd rhan yn eu gweithgareddau. Caiff y clwb ei redeg mewn ffordd anffurfiol iawn heb strwythur llym – mae hyn yn galluogi'r plant i ddewis yr hyn yr hoffent ei wneud a bodlonir eu dymuniadau. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i fynegi eu hoffterau a'u cas bethau. Mae eu barn yn llywio'r clwb mewn perthynas â pha bryniannau y gellir eu gwneud i wella eu profiadau yn y clwb ymhellach.

Mae'r plant yn cael budd o'r amgylchedd hamddenol a'r cyfleoedd digonol i fynegi eu hunain. Caiff llais pob plentyn ei barchu ac mae'r staff yn gwrando arnynt.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn fodlon ac yn hapus gyda'r staff ac yn siarad â nhw yn hawdd. Roedd llawer o'r plant yn hyderus ac yn hapus i siarad â'r arolygydd.

Gwelsom y gydberthynas hyfryd sy'n bodoli rhwng y plant a'r staff, sy'n galluogi'r plant i ddangos parch tuag at eraill a'u cyfoedion. Clywsom y plant yn diolch i'r staff heb unrhyw ysgogiad ac yn cael sgyrsiau diddorol â'i gilydd sy'n creu awyrgylch gymdeithasol iawn. Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y staff sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n gallu eu hannog i sgwrsio am eu teuluoedd, eu bywyd gartref, eu hobïau a'u cyflawniadau a'u diwrnod yn yr ysgol. Mae'r gydberthynas agos hon yn golygu bod y plant yn gyfforddus gyda'r staff ac maent yn hapus i rywun dynnu eu coes. Mae hyn yn datblygu'r gydberthynas rhyngddynt ymhellach.

Mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus ac yn fodlon yng ngofal y staff a chânt eu trin gyda pharch a chwrteisi.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac yn rheoli eu hymddygiad, yn cydweithredu, yn cymryd eu tro ac yn helpu eraill. Maent yn dysgu sut i feithrin cydberthnasau ag eraill.

Mae'r plant yn cael budd o'r anogaeth gyson a rheolaidd ynglŷn ag ymddygiad derbyniol. Mae'r staff yn defnyddio perswâd cadarnhaol, canmoliaeth gyson a lleisiau addfwyn i annog y plant i ddangos ymddygiad derbyniol yn y clwb. Mae hyn yn ysgogi'r plant i ymddwyn mewn ffordd sy'n dderbyniol i eraill ac i gael eu canmol gan y staff. Gwelwyd y plant hŷn yn sgwrsio â'r plant iau ac yn eu hannog i ymuno yn eu gemau. Caiff y plant eu harwain drwy esiampl dda o sut i feithrin cydberthynas hapus ag eraill a hefyd i barchu eraill. Mae hyn yn gymhelliant effeithiol yn eu datblygiad cymdeithasol.

Caiff y plant eu harwain drwy esiampl dda o sut i feithrin cydberthynas hapus ag eraill a hefyd i barchu eraill. Mae hyn yn gymhelliant effeithiol yn eu datblygiad cymdeithasol.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn mwynhau'r cyfleoedd i chwarae ac ymlacio yn fawr, ac roeddent yn cymryd rhan lawn yn y gweithgareddau a oedd ar gael.

Gwelsom fod yr holl blant yn brysur yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau amrywiol drwy gydol y cyfnod arolygu. Roedd amrywiaeth o deganau, gemau a phosau dan do ac awyr agored ar gael. Gallai'r plant symud yn ddidrafferth o un gweithgaredd i'r llall. Gwelsom fod rhai o'r plant yn canolbwyntio ar un gweithgaredd am gyfnod hir o amser cyn gwneud rhywbeth arall. Roedd rhai o'r plant yn chwarae'n hapus ar eu pen eu hunain ac roedd rhai mewn grwpiau. Gwelsom lawer o'r plant yn chwarae pêl-droed, pêl-fasged neu sgitls ar iard chwarae'r ysgol.  Roedd y plant yn mwynhau'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r staff. Roedd modd i ni siarad â rhai o'r plant a gwnaeth pob un ohonynt ganmol yr amrywiaeth o weithgareddau yn y clwb, y gofal a'r sylw a gânt gan y staff a bod y staff bob amser yn gwrando arnynt.

Mae digon o gyfleoedd i'r plant gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau, y mae gan rai ohonynt natur fwy strwythuredig. Mae hyn yn cynnal eu diddordeb ac yn ychwanegu at eu mwynhad wrth fynychu'r clwb.

### 1.5  Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael cyfleoedd rheolaidd ac amrywiol i ddatblygu yn gymdeithasol a dod yn annibynnol.

Mae'r clwb yn hyrwyddo annibyniaeth ymhlith y plant. Mae'r plant yn dewis yr hyn y maent am ei wneud, pryd a beth yr hoffent ei fwyta a gyda phwy y maent yn treulio eu hamser. Cyn amser byrbryd, cafodd y plant y cyfle i fynegi eu hoff bethau a'u cas bethau. Anogwyd y plant i dacluso ar ôl bwyta. Atgoffwyd pob un o'r plant i olchi eu dwylo a gwnaethant hynny yn annibynnol, a defnyddio'r toiled.

Mae'r plant yn cael anogaeth effeithiol i fod yn annibynnol ac mae hygyrchedd yr adnoddau yn cyfrannu at hyn.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn y clwb wedi llwyddo i feithrin cydberthynas gynnes â'r plant ac maent wedi creu amgylchedd gofalgar. Mae'r staff yn gyfarwydd â pholisïau a gweithdrefnau allweddol ac maent yn dangos dealltwriaeth dda ohonynt ac maent yn gwybod pryd a ble i ofyn am gymorth.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae amrywiaeth eang o weithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch ac iechyd y plant.

Wrth sgwrsio, nodwyd bod y staff yn gyfarwydd â'r Polisi Amddiffyn Plant ac yn gwybod pa gamau i'w dilyn petai pryder yn codi. Mae'r staff wedi ennill y cymwysterau Hylendid Bwyd gofynnol a gwelsom y byrddau yn cael eu glanhau cyn paratoi ar gyfer amser byrbryd. Mae'r clwb yn rhoi byrbrydau iachus i'r plant ac mae dŵr ar gael bob amser. Mae'r staff yn ymwybodol o weithdrefnau sy'n ymwneud â rheoli heintiau a gwelsom y plant yn cael eu hatgoffa i olchi eu dwylo yn rheolaidd a chyn byrbrydau. Caiff cofrestr ddyddiol ei chadw a gwelwyd ei bod yn gyflawn ac yn gyfredol. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd gyda'r plant a chaiff hyn ei gofnodi'n briodol. Gwelsom hefyd lyfr lle y caiff damweiniau, anafiadau a salwch eu cofnodi. Nid oedd rhai cofnodion yn y llyfr hwn wedi cael eu llofnodi na'u dyddio gan y staff sy'n gofalu am y plant.

Mae hwn yn glwb sy'n gwneud pob ymdrech i sicrhau ei fod yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach yn llwyddiannus.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol bob amser. Mae'r plant yn cael eu trin â pharch a rhoddir enghraifft glir o ymddygiad derbyniol iddynt yn barhaus.

Mae'r staff wedi meithrin cydberthynas gynnes â'r plant, sy'n creu amgylchedd cyfeillgar yn y clwb. Mae gan y plant ryddid i ymlacio a mwynhau eu hunain ar ôl diwrnod blinedig yn yr ysgol. Gwelsom y staff yn sgwrsio â'r plant am eu teuluoedd a'u hobïau ac yn dangos diddordeb yn yr hyn roedd gan y plant i'w ddweud. Mae hyn yn arwain at blant sy'n hapus i sgwrsio â'i gilydd a'r arolygydd a oedd yn bresennol hefyd. Mae'r plant yn dangos ymddygiad cadarnhaol bob amser oherwydd maent yn cael eu cadw'n brysur ac maent yn cymryd rhan lawn mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n cyfrannu at yr awyrgylch hapus a bodlon. Clywyd aelodau o staff yn canmol y plant yn gyson.

Mae'r staff wedi llwyddo i osod ffiniau ymddygiad gan roi rhyddid i'r plant ymlacio a bod yn hapus ar yr un pryd ac maent hefyd yn arwain drwy esiampl.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff wedi darparu amgylchedd cymhellol lle gall y plant ymlacio a derbyn gofal. Mae'r staff yn ymwybodol o anghenion unigol ac yn ymateb yn briodol.

Mae'r clwb yn cynnwys digon o adnoddau sy'n briodol ar gyfer oedran y plant. Caiff y plant eu hannog i chwarae gyda theganau sy'n briodol ar gyfer eu hoedran a hefyd i ddatblygu'r ffordd y maent yn chwarae. Gwelsom y staff yn rhoi gwybod i rieni am faterion a oedd yn ymwneud â phlant unigol, wrth i rieni ddod i gasglu eu plant. Maent yn ymwybodol o anghenion pob plentyn a chaiff y rhain eu diwallu.

Mae'r staff yn darparu amgylchedd a gweithgareddau ysgogol i'r plant i ddatblygu eu datblygiad a'u llesiant ac yn ymateb i anghenion unigol yn llwyddiannus.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Cynhelir y clwb mewn caban ac mae'n addas at ddiben y gofal a ddarperir. Mae toiledau sy'n gyfleus i'r plant a'r staff eu defnyddio. Mae'r adnoddau o ansawdd da, ond mae'r gofod storio yn gyfyngedig, dan do ac yn yr awyr agored, oherwydd caiff yr ystafell ei defnyddio gan wasanaethau eraill yn ystod oriau ysgol. Mae'r holl offer yn addas ar gyfer ystod oedran y plant.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae gweithdrefnau diogelwch ar waith i sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd sy'n ddiogel ac yn lân.

Mae digon o le i'r plant chwarae dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r gofod a ddefnyddir wedi'i drefnu'n dda. Mae tacluso a storio yn gyson yn golygu nad oes unrhyw annibendod yn arwain at risgiau diogelwch. Gall y clwb ddefnyddio iard yr ysgol, sy'n ddiogel ac yn gaeedig, pan fydd y plant am chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r arweinwyr wedi llwyddo i greu amgylchedd sy'n ddiogel i'r plant ond nad yw'n cyfyngu ar eu natur anturus.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r clwb yn darparu amgylchedd o safon sy'n addas i'r plant ymlacio ynddo. Mae amrywiaeth eang o adnoddau i ddiwallu anghenion unigol.

Mae'r clwb yn cwrdd mewn ystafell ddosbarth lle y caiff y rhan fwyaf o adnoddau eu stori sy'n golygu eu bod yn hawdd i'r plant gael gafael arnynt. Mae digon o le i'r holl weithgareddau yr oedd y plant yn cymryd rhan ynddynt. Mae'r toiledau yn hygyrch ac yn hyrwyddo annibyniaeth y plant. Mae byrddau wedi'u gosod er mwyn i'r plant eistedd wrthynt pan fyddant yn dewis cael byrbryd.

Mae'r arweinwyr wedi llwyddo i ddarparu amrywiaeth eang o adnoddau ac amgylchedd addas sy'n annog y plant i ymlacio a chael amser da.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd da o'r amgylchedd a'r dodrefn o ansawdd a ddarperir gan yr ysgol. Maent yn sicrhau bod adnoddau o ansawdd yn cael eu darparu sy'n briodol ar gyfer oedran y plant.

Gwelsom fod y dodrefn o ansawdd da ac yn addas ar gyfer y plant. Mae'r clwb yn darparu adnoddau o ansawdd i'r plant. Gwelsom nad oedd ardal y sinc yn y toiled wedi cael ei glanhau yn ddigonol, ac nad oedd unrhyw arwyneb gweithio ar gyfer paratoi bwyd i fodloni gofynion hylendid bwyd. Roedd cynlluniau i osod arwyneb gweithio newydd.

Mae'r arweinwyr wedi darparu adnoddau helaeth i sicrhau bod y plant yn mwynhau eu hunain, a'u bod o ansawdd sy'n sicrhau diogelwch y plant.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae'r Person Cofrestredig a'r Person â Chyfrifoldeb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Maent yn sicrhau bod yr aelodau o staff yn mynychu cyrsiau hanfodol a pherthnasol i wella a datblygu'r ddarpariaeth.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r Person â Chyfrifoldeb wedi sicrhau bod y rhan fwyaf o bolisïau a gweithdrefnau yn fanwl ac yn drefnus a'u bod yn cynnwys y wybodaeth briodol.

Mae'r Person â Chyfrifoldeb yn gyfarwydd â Pholisïau a Gweithdrefnau a chaiff y rhain eu hymgorffori mewn ymarferion dyddiol. Mae gan y clwb Ddatganiad o Ddiben cynhwysfawr a Llawlyfr i Rieni, a roddir i rieni fel rhan o becyn gwybodaeth cyn i'w plant ddechrau defnyddio'r gwasanaeth. Mae angen diweddaru'r Datganiad o Ddiben yn rheolaidd. Mae'r staff yn mynychu cyrsiau i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â gweithdrefnau cyfredol a'u bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf. Gwelsom enghreifftiau o ffeiliau staff a nodwyd nad yw'r ffeiliau yn cynnwys yr holl wybodaeth sylfaenol er mwyn bodloni gofynion Rheoliadau. Mae hyn yn golygu nad yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010.

Mae'r arweinydd wedi bodloni'r rhan fwyaf o ofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ond mae angen gwneud gwelliannau i wella effeithiolrwydd arweinyddiaeth yn y gwasanaeth.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn defnyddio gweithdrefnau hunanwerthuso ac maent yn gallu cynllunio gwelliannau i'r gwasanaeth.

Gwelsom dystiolaeth o weithdrefnau hunanwerthuso ac adroddiad Adolygiad o Ansawdd y Gofal sy'n cael ei lunio gan ddefnyddio templed y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) a ddarperir gan AGC. Roedd yr adroddiad yn gynhwysfawr ac yn rhoi darlun clir o bopeth a oedd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf a hefyd unrhyw gynlluniau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid oedd y gwasanaeth wedi mynd i'r afael â meysydd i'w gwella a nodwyd yn y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, yn bennaf am fod staff y clwb i gyd wedi newid. Er enghraifft, nid oedd y gwasanaeth wedi buddsoddi mewn darpariaeth awyr agored fel y cynlluniwyd, ac nid oedd partneriaethau rhwng y clwb ac asiantaethau allanol wedi cael eu sefydlu. Gwelsom fod gwybodaeth o holiaduron rhieni a phlant wedi cael ei chynnwys yn yr adroddiad. Gwelsom sampl o'r holiaduron hyn ac roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau yn ganmoliaethus ac yn gadarnhaol.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio gweithdrefnau hunanwerthuso, ond nid yw gwaith cynllunio ar gyfer gwella bob amser yn effeithiol.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn brofiadol iawn ac yn rheoli'r staff a'r adnoddau yn effeithiol y rhan fwyaf o'r amser. Caiff cyfrifoldebau eu dirprwyo pan fydd hynny'n briodol. Caiff y staff eu cefnogi'n dda ac maent yn cydweithredu'n dda fel tîm.

Gwelsom y staff yn cydweithredu'n dda fel tîm ac roeddent yn cefnogi ei gilydd. Gwelsom y staff yn cymryd drosodd yn ôl y gofyn, er enghraifft, os oedd angen i aelod o staff siarad â rhiant, roedd aelod arall o staff yn parhau â'r gweithgareddau i'r plant.

Wrth arolygu ffeiliau'r staff, nodwyd nad oedd y ffeiliau yn cynnwys yr holl wybodaeth sylfaenol sy'n ofynnol gan y Rheoliadau. Nid oedd dogfennaeth arfarnu staff ar gael, ac nid oedd unrhyw drefniadau goruchwylio staff ar waith. Mae hyn yn golygu nad yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau.

Mae'r staff yn gweithio'n effeithiol ac yn ddiwyd fel tîm i sicrhau gofal o ansawdd da i'r plant. Caiff cyfrifoldebau eu rhannu'n llwyddiannus ond mae angen i'r arweinwyr sicrhau yr eir i'r afael â'r holl ofynion sylfaenol yn ffeiliau'r staff.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae cydberthynas dda rhwng y clwb a'r rhieni, gyda llwybrau cyfathrebu rheolaidd ac agored er budd llesiant y plant.

Gwnaethom siarad â dau riant a ddaeth i gasglu eu plant, a siaradodd y ddau yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth a ddarperir gan y clwb. Gwnaethant hefyd ganmol y staff, yn ogystal â'r gweithgareddau a'r byrbrydau a ddarperir ar gyfer eu plant. Roeddent hefyd yn gadarnhaol iawn am y wybodaeth maent yn ei chael gan y clwb. Mae digon o gyfleoedd i'r rhieni drafod unrhyw broblemau â'r staff bob dydd. Mae pennaeth yr ysgol lle lleolir y clwb yn gefnogol iawn, ac mae'n dangos diddordeb brwd yn ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn y clwb.

Mae'r gydberthynas agos â'r rhieni yn galluogi'r staff a'r arweinwyr i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r plant. Rhoddir gwybodaeth i rieni yn rheolaidd o ran lles y plant.

## 5.Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio o'r arolygiad blaenorol

### 5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

Gwnaethom hysbysu'r person â chyfrifoldeb nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â

Rheoliad 29(3)(a) o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, am nad oedd y staff yn cael goruchwyliaeth nac arfarniadau priodol.

Ni wnaethom gyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio gan na wnaethom nodi fod hyn yn cael effaith ar lesiant y plant ar yr achlysur hwn. Mae'n rhaid i'r person cofrestredig ymdrin â'r materion hyn.

### 5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

- Diweddaru Datganiad o Ddiben y gwasanaeth yn rheolaidd;
- Sicrhau y caiff cofnodion o ddamweiniau ac anafiadau'r staff eu llofnodi a'u dyddio gan y staff bob amser;
- Mabwysiadu polisïau a gweithdrefnau arfarnu a goruchwylio staff;
- Trafod ffyrdd o sicrhau bod y toiled bob amser yn lân yn ystod adegau trosglwyddo gyda gwasanaethau eraill sy'n defnyddio'r caban;
- Sicrhau yr eir i'r afael â gwelliannau gofynnol a nodwyd yn yr adroddiad Adolygiad o Ansawdd y Gofal yn brydlon;
- Cynnwys hanes cyflogaeth pob aelod o staff yn ffeiliau'r staff.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Gwnaethom gynnal yr arolygiad dirybudd hwn fel rhan o'n hamserlen flynyddol. Gwnaethom gynnal yr arolygiad rhwng 15:00 pm a 18:00 pm ddydd Mawrth 11 Medi 2018.

- Cynhaliodd un arolygydd yr arolygiad yn ystod yr amseroedd a nodwyd;
- Gwnaethom archwilio amrywiaeth eang o gofnodion, gan gynnwys y Datganiad o Ddiben, polisïau a ffeiliau staff;
- Gwnaethom arsylwi ar weithgareddau'r plant, a'r gofal a roddir iddynt dan do ac yn yr awyr agored;
- Gwnaethom archwilio'r safle ac ansawdd y teganau a'r cyfarpar;
- Gwnaethom siarad â'r plant, y person cofrestredig, y person â chyfrifoldeb ac aelodau eraill o staff, a dau riant.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Person Cofrestredig | Bethan Lindquist |
| Person â chyfrifoldeb | Eleanor Jones |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 20 |
| Ystod oedran y plant | 4 i 11 |
| Oriau agor | 15.00pm i 17:30pm (sesiwn ar ôl ysgol) |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15 Medi 2015 |
| Dyddiad yr ymweliad(au) arolygu | 11 Medi 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy. Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio |